# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

## PENNOD 3

RHESYMOLI LLEOEDD YSGOL

*Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chynigion o dan adran 59*

### 61 Ymchwiliad lleol i gynigion

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud cynigion o dan adran 59 (ac eithrio cynigion a wnaed yn rhinwedd adran 62(1)) nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl.

(2) Os yw gwrthwynebiadau wedi eu gwneud yn unol ag adran 60(2), yna, oni fydd pob gwrthwynebiad sydd wedi ei wneud felly wedi ei dynnu'n ôl yn ysgrifenedig o fewn yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno, rhaid i Weinidogion Cymru beri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.

(3) Diben yr ymchwiliad lleol yw ystyried cynigion Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu cyfeirio at yr ymchwiliad a'r gwrthwynebiadau a grybwyllwyd yn is-adran (2).

(4) Mae cynigion a gyfeirir at ymchwiliad lleol o dan yr adran hon i'w penderfynu o dan adran 62 ac nid yw adrannau 50, 51, 53, 54, 70 a 73 yn gymwys iddynt.

(5) Pan fo'n ofynnol i ymchwiliad lleol gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru gyfeirio'r cynigion a restrir yn is-adran (6) i'r ymchwiliad os yw'r cynigion—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 61 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(a) heb gael eu penderfynu cyn i drafodion yr ymchwiliad ddechrau, a

(b) yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai sy'n gysylltiedig â'r cynigion a wnaed o dan adran 59 ac y mae'r ymchwiliad i'w gynnal mewn cysylltiad â hwy.

(6) Y cynigion sydd i'w cyfeirio yw—

(a) unrhyw gynigion eraill a gyhoeddir o dan adran 59 mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(b) unrhyw gynigion a wneir gan yr awdurdod hwnnw wrth arfer eu pwerau i wneud cynigion i sefydlu, newid neu derfynu ysgolion (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(c) unrhyw gynigion a wneir gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol yn yr ardal wrth arfer ei bwerau i wneud cynigion i newid ei ysgol (a'r rheini'n gynigion sydd heb gael eu tynnu'n ôl);

(d) unrhyw gynigion a wneir o dan adran 68 neu 71 (ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl).

(7) Os bydd Gweinidogion Cymru, cyn bod trafodion yr ymchwiliad yn dechrau, yn ffurfio barn y dylid gweithredu unrhyw gynigion, nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfeirio'r cynigion hynny i'r ymchwiliad oni fyddant yn ffurfio barn wahanol cyn bod—

(a) trafodion yr ymchwiliad wedi eu cwblhau, neu

(b) (os ydynt yn gynharach) y cynigion wedi eu penderfynu.

(8) Nid yw'n agored i'r ymchwiliad gwestiynu'r egwyddorion a bennir yn y cyfarwyddyd o dan adran 57(2).

(9) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at benderfynu cynigion yn cyfeirio at—

(a) penderfyniad p'un ai i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r cynigion o dan adran 50, 51, 62, 70 neu 73;

(b) penderfyniad p'un ai i weithredu'r cynigion o dan adran 53 ai peidio;

(c) penderfyniad p'un ai i gymeradwyo cynigion a atgyfeiriwyd i Weinidogion Cymru o dan adran 54 ai peidio.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 61 mewn grym ar 1.10.2013 gan O.S. 2013/1800, **ergl. 3(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 61 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 61(4) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(6)(a)
- s. 61(6)(d) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(6)(b)
- s. 61(8) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(6)(c)
- s. 61(9)(a) words substituted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(6)(d)(i)
- s. 61(9)(b) words inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(6)(d)(ii)

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)